

**Ein Cyf /Our Ref:**  
**Dyddiad /Date:**  
**Llinell uniongyrchol/Direct line:**  
**Ebost/Email:**

ST/ British Sign Language  
7<sup>fed</sup> Tachwedd 2017  
02920 468600

David J Rowlands AC  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA



CLILC • WLGA

Annwyl Mr Rowlands,

**P-04-628 Gwella mynediad i Addysg a gwasanaethau yn Iaith Arwyddion Prydain**

Llawer o ddiolch ichi am eich ymholiad diweddar parthed gwell mynediad i addysg a gwasanaethau yn Iaith Arwyddion Prydain er mwyn gwella ansawdd bywyd pobl fyddar o bob oedran, ac ymddiheuriadau am yr amser a gymerwyd cyn ymateb. Fel y gwyddoch, nid yw WLGA yn dal gwybodaeth am y pwnc hwn yn ganolog ond rydym wedi cysylltu â phob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru gan ofyn am eu barn.

Ein dealltwriaeth yw bod yr awdurdodau yn darparu cryn dipyn o gefnogaeth i blant a phobl ifanc sy'n fyddar ond fel bob amser mae problemau yn bodoli o ran cyllid ac adnoddau o fewn y gweithlu. Bydd athrawon arweiniol y byddar yn cwrdd yn rheolaidd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i rannu arferion gorau a hybu cysondeb. Mae gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg (ADEW) is-grŵp ym maes Gwasanaethau Nam ar y Synhwyrau sy'n cynnwys y penaethiaid gwasanaeth o bob un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae'r awdurdodau yn gweithio gyda Chymdeithas Athrawon y Byddar Prydain (BATOD) drwy BATOD Cymru. Mewn sawl ardal, crëwyd cysylltiadau effeithiol iawn â Chymdeithas Plant Byddar Cenedlaethol Cymru sy'n gallu cynnig sesiynau hyfforddiant iaith arwyddion wedi'u teilwra ar gyfer teuluoedd sydd â phlant o dan bump oed. Mae hyn yn berthnasol gan fod dosbarthiadau BSL sy'n arwain at achredu yn tueddu i ganolbwytio ar eirfa i oedolion ac nid ar yr hyn sydd ei angen ar blant. Hwyrach bydd y fforymau hyn mewn lle gwell i helpu'r Pwyllgor Deisebau gyda'i ymholiad ac i roi rhagor o wybodaeth am y ddarpariaeth. Rwy'n fodlon iawn darparu rhagor o fanylion cyswllt os bydd angen.

Fel a nodais, rwyf hefyd yn ymwybodol bod problemau gan yr awdurdodau o ran adnoddau o fewn y gweithlu a heriau cyllido. Y sefyllfa ddelfrydol fyddai cyflenwi'r cwricwlwm a chyfleoedd cymdeithasol gan ddefnyddio BSL fel cyfrwng addysgu, dysgu a rhwngweithio. Er mwyn gwneud hyn byddai angen arbenigwyr pwnc sy'n defnyddio ac yn dysgu drwy BSL a grŵp o gymheiriad byddar ehangach o lawer a modelau rôl byddar i gefnogi'r gwaith o

Steve Thomas CBE  
Prif Weithredwr  
Chief Executive

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru  
Tŷ Llywodraeth Leol  
Rhodfa Drake  
CAERDYDD CF10 4LG  
Ffôn: 029 2046 8600

Welsh Local Government Association  
Local Government House  
Drake Walk  
CARDIFF CF10 4LG  
Tel: 029 2046 8600

wlga.cymru  
wlga.wales

@WelshLGA

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.**

**Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.**

We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.

Use of either language will not lead to a delay.

ddatblygiad cymdeithasol ac emosynol. Ychydig iawn o awdurdodau sy'n gallu cynnig y lefel yma o wasanaeth. O ganlyniad, bydd rhai awdurdodau yn cefnogi ceisiadau gan bobl ifanc fyddar a'u teuluoedd i gael eu lleoli mewn llefydd arbenigol, fel er enghraift The Exeter Academy for the Deaf; Mary Hare School; a Hamilton Lodge yn Brighton. Yma hefyd, ceir goblygiadau o ran adnoddau o ran y ddarpariaeth yma sy'n golygu y bydd plant a phobl ifanc yn derbyn eu haddysg i ffwrdd o'u cartref.

Ymhlieth y pryderon eraill a godwyd gyda ni y mae mynediad i diwtoriaid BSL a chyllido i gefnogi lefelau hyfforddiant a gallu ar gyfer y gweithlu. Mae'n cymryd o leiaf tair blynedd i aelod o staff gyrraedd Lefel 3 BSL, sef y lefel y byddai NDGS yn ei argymhell ar gyfer staff mewn ysgol sy'n gweithio gyda phlant sydd â BSL yn iaith gyntaf. Dadleuir felly bod angen ymagwedd tymor hir o ran datblygu sgiliau'r gweithlu. Mae'n anodd iawn hysbysebu a dod o hyd yn gyflym i gynorthwydd dysgu sy'n meddu ar Lefel 3 BSL. O ganlyniad, bydd gwasanaethau yn tueddu i ddatblygu eu hadnoddau a'u gallu eu hunain yn fewnol. Ymddengys bod nifer y tiwtoriaid BSL cymwys sy'n gallu darparu hyfforddiant yn broblem ar draws y DU.

Pryder arall sy'n codi yw'r ffaith bod defnyddio iaith mewn cyd-destun cymdeithasol yr un peth ar gyfer defnyddwyr BSL. Her yw cefnogi'r dasg o gynnwys plant yn effeithiol ym mhob agwedd ar fywyd ysgol os bydd plentyn yn unig defyddiwr BSL neu arwyddion mewn ysgol a'r unig berson arall sy'n arwyddo yw'r oedolyn o gynorthwydd dysgu. Mae darparu clybiau a grwpiau iaith arwyddion yn y cyd-destun hwn yn hanfodol, ond gall y gwaith o ddod o hyd i bobl a all eu darparu mewn ysgolion fod yn anodd. Mae datblygu ymwybyddiaeth BSL drwy glybiau ar ôl oriau ysgol hefyd yn cefnogi statws BSL fel iaith yn ei rhinwedd ei hun.

Mae rhai awdurdodau wedi awgrymu y gellid ystyried ysgol arbenigol i'r Fyddar yng Nghymru i ddiwallu anghenion y grŵp yma o ddysgwyr ac er ei bod yn ymddangos na fyddai'r dull yma hwyrach yn cyfateb i addysg gynhwysol, mae'n bosibl mai dyma fyddai'r unig ffordd o gyflenwi'r cwricwlwm yn effeithiol drwy BSL.

Yn gywir



Steve Thomas CBE  
**Prif Weithredwr**

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.**

**Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.**

We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.  
Use of either language will not lead to a delay.

**Ein Cyf /Our Ref:**  
**Dyddiad /Date:**  
**Llinell uniongyrchol/Direct line:**  
**Ebost/Email:**

ST/ British Sign Language  
7<sup>th</sup> November 2017  
02920 468600

David J Rowlands AM  
National Assembly for Wales  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA



Dear Mr Rowlands,

### **P-04-628 To improve access to Education and services in British Sign Language**

Many thanks for your recent inquiry regarding improved access to education and services in British Sign Language to improve the quality of life for deaf people of all ages and apologies for the time taken to respond. As you know, the WLGA does not hold information on this issue centrally but we have liaised with all 22 local authorities in Wales and sought their views.

Our understanding is that there is a significant amount of support provided by authorities to deaf children and young people but as always there are funding and capacity issues. The lead teachers of the deaf meet on a regular basis, across the regions and also nationally, to share best practice and promote consistency. The Association of Directors of Education ADEW also has a subgroup for Sensory Impairment Services which includes the service leads from all local authorities across Wales and authorities work with the British Association of Teachers of the Deaf (BATOD) through BATOD Wales. In many areas there are also very effective links with the National Deaf Children Society Cymru who can offer family sign language training sessions designed specifically for families with deaf children under five. This is relevant as BSL classes that lead to accreditation tend to focus on adult themed vocabulary and not what is needed for a child. These fora might be better placed to help the Petitions Committee with its inquiry and provide further information about provision. I am happy to provide further contact details if required.

As indicated, I am also aware that there are capacity issues and funding challenges for authorities. The ideal would be to deliver the curriculum and social opportunities using BSL as the medium of teaching, learning and interaction. This would require subject specialists who use and teach through BSL and a much wider deaf peer group and deaf role models to support social and emotional development. Very few authorities are in a position to deliver this level of service. As a consequence, some authorities support requests from deaf young people and their families for specialist residential placements at for example the Exeter Academy for the Deaf; Mary

Steve Thomas CBE  
Prif Weithredwr  
Chief Executive

Cymdeithas Llywodraeth  
Leol Cymru  
Tŷ Llywodraeth Leol  
Rhodfa Drake  
CAERDYDD CF10 4LG  
Ffôn: 029 2046 8600

Welsh Local Government  
Association  
Local Government House  
Drake Walk  
CARDIFF CF10 4LG  
Tel: 029 2046 8600

wlga.cymru  
wlga.wales

@WelshLGA

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.**

**Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.**

We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.

Use of either language will not lead to a delay.

Hare School; and Hamilton Lodge Brighton. There are again resource implications to this provision and it means children and young people being educated away from their locality.

Other issues of concern raised with us include, access to BSL tutors and funding to support training and competency levels for staff. It takes at least three years to take a member of staff to BSL Level 3, which is the level NDCS would recommend staff working with children who have BSL as a first language require in a school setting. It is argued therefore that there needs to be a long term approach to developing staff skills. It's very difficult to advertise and quickly source a teaching assistant with Level 3 BSL. As a consequence, services tend to look to develop their own capacity internally. The number of qualified BSL tutors able to provide training appears to be problematic at a UK level.

Another concern relates to the importance of using language in a social context is the same for BSL users. If a child is the only BSL or sign user in a school and the only other person who signs is the adult teaching assistant then, it is a challenge to support effective inclusion in all aspects of school life. Providing peer sign language clubs and groups in these contexts is vital, but finding people who can provide them in schools can be difficult. Developing the awareness of BSL thorough afterschool clubs also supports the status of BSL as a language in its own right.

Some authorities have suggested that a specialist school for the Deaf within Wales might be considered to meet the needs of this group of learners and that although this approach might not seem very inclusive, it might be the only way of delivering the curriculum effectively through BSL.

Yours sincerely



Steve Thomas CBE  
**Chief Executive**